



Rheoli'ch arian a thalu'ch rhent

Sut i wneud y gorau o'ch taliadau
Credyd Cynhwysol yng
Nghymru a Lloegr

Gall y canllaw hwn eich helpu i:

- ➔ Gael y cyfrif banc cywir
- ➔ Llunio cyllideb
- ➔ Talu'ch rhent
- ➔ Ymdrin â rhent dyledus
- ➔ Mynd ar-lein



**Gwasanaeth
Cynghori Ariannol**

UC *Universal
Credit*

Mae'r **Gwasanaeth Cyngori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol ac fe'i sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â pharatoi ar gyfer Credyd Cynhwysol, rydym yn cynnig gwybodaeth ar ystod eang o bynciau ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu i wneud penderfyniadau cytbwys.

 moneyadviceservice.org.uk/cy

Cyngor di-duedd am ddim

 ar-lein

 dros y ffôn

Yma i'ch helpu

Dyma'r canllaw i chi os hoffech ddysgu rhagor am Gredyd Cynhwysol

Gall eich helpu i wneud y canlynol:

- gwneud cais newydd
- symud o'ch budd-daliadau presennol i Gredyd Cynhwysol
- defnyddio'r cyfrif banc cywir i reoli'ch arian
- talu'ch rhent i'ch landlord yn uniongyrchol
- ystyried sut mae gwneud un taliad i bara am fis
- gosod cyllideb er mwyn cynllunio eich gwario
- mynd ar-lein a theimlo'n hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur.

Cynnwys

Yr hyn sydd angen i chi wybod am Gredyd Cynhwysol	4
1 Cael y cyfrif banc cywir	5
2 Llunio cyllideb	6
3 Ystyriwch sut y byddwch yn talu'ch rhent	8
4 Os ydych chi'n methu â thalu rhent	9
5 Mynd ar-lein	10

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod am Gredyd Cynhwysol yng Nghymru a Lloegr

- ⇒ Efallai y bydd angen i chi aros am hyd at bum wythnos am eich taliad cyntaf, felly peidiwch ag oedi eich hawliad.
- ⇒ Telir Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc.
- ⇒ Byddwch yn cael un taliad misol ar gyfer eich holl deulu.
- ⇒ Cynhwysir unrhyw gymorth rydych yn ei gael gyda'ch rhent yn eich taliad.
- ⇒ Bydd yn rhaid i chi dalu rhent i'ch landlord eich hun.
- ⇒ Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud ac yn rheoli eu hawliad Credyd Cynhwysol ar-lein.

1 Cael y cyfrif banc cywir

Sicrhewch eich bod yn defnyddio cyfrif banc sy'n gwneud y canlynol:

- gadael i chi dderbyn taliadau awtomataidd - oherwydd dyna sut y telir eich Credyd Cynhwysol.
- eich galluogi i sefydlu Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog i dalu'ch rhent a'ch biliau eraill ar ôl i chi dderbyn eich taliad cyntaf.

Os nad ydych eisoes wedi defnyddio Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog i dalu rhent neu filiau rheolaidd, siaradwch â'ch banc ynglŷn â sut i drefnu'r dyddiad gorau i dalu'r taliadau er mwyn osgoi bod mewn dyled.

Peidiwch â sefydlu unrhyw Ddebydau Uniongyrchol nag archebion sefydlog nes y byddwch chi'n gwybod faint o Gredyd Cynhwysol fyddwch chi'n ei gael a'ch bod wedi derbyn eich taliad cyntaf.

Os bydd yr arian yn mynd allan cyn hynny, efallai y byddwch mewn dyled a bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd i'r banc.

Cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Os nad ydych chi'n gymwys i agor cyfrif banc sylfaenol, er enghraifft oherwydd nad ydych erioed wedi cael cyfrif banc neu os oes gennych sgôr credyd gwael, efallai y byddwch chi'n

gallu gwneud cais am gyfrif banc sylfaenol heb ffi.

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn eich galluogi i wneud a derbyn taliadau ond nid oes modd i chi gael gorddrafth. Ni fyddwch yn talu unrhyw daliadau am ddefnyddio'ch cyfrif. Fodd bynnag, os ydych yn colli taliadau rheolaidd efallai y bydd yn rhaid i chi barhau i dalu ffioedd i'r bobl y mae arnoch arian iddynt.

Dysgwch ragor ynghylch pa fanciau neu gymdeithasau adeiladu sy'n cynnig cyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn:

➔ moneyadvice.service.org.uk/cyfrif-banc

Cyfrifon banc os ydych chi'n hawlio fel cwpl

Os ydych chi'n gwpl a'r ddau ohonoch yn derbyn Credyd Cynhwysol, gallwch ddewis cael eich Credyd Cynhwysol wedi'i dalu i gyfrif ar y cyd neu i un cyfrif. Siaradwch â'ch partner ynghylch beth sy'n gweithio orau i'r ddau ohonoch chi.

Y camau nesaf

Dysgwch ragor am y wahanol fathau o gyfrifon banc a manteision ac anfanteision yn:

➔ moneyadvice.service.org.uk/dewis-y-cyfrif-banc-cywir

2 Llunio cyllideb

Cewch un taliad yn unig o Credyd Cynhwysol bob mis

Os ydych chi wedi arfer â chyfrifo'ch gwariant bob wythnos neu bob pythefnos, efallai y bydd angen i chi feddwl am ffyrdd i sicrhau bod gennych ddigon o arian i bara'r mis cyfan.

Rhannwch eich gwario i eitemau hanfodol ac eitemau dianghenraid

Cymerwch olwg ar eich gwario a lluniwch ddwy restr: un am bethau angenrheidiol, a'r llall am bethau y gallwch fyw hebddynt.

Chwiliwch am y fargen orau

Gyda'r hanfodion, megis eich nwy a thrydan neu'ch ffôn, edrychwch a oes modd i chi newid i fargen well. A chwiliwch am ostyngiadau a thalebau wrth siopa am fwyd.

Mae ffyrdd gwych o arbed i'w gweld yn:

 moneyadvice.service.org.uk/fy-arian

Cwtogwch ar y pethau diangen

Byddwch yn llym - cwtogwch ar gymaint o bethau diangen ag y gallwch. Gal pethau bach fel papurau newydd a melysion ychwanegu at y costau ymhen fawr o dro.

Defnyddiwch y rhestr wirio ddefnyddiol ar y dudalen nesaf i nodi faint o arian sydd gennych yn dod i mewn a phopeth rydych yn ei wario bob mis.

Os ydych am ddadansoddi'ch incwm a'ch costau'n fanylach, defnyddiwch ein cynlluniwr cyllideb ar-lein i'ch helpu.

Dewch o hyd i'n teclyn Cynlluniwr Cyllideb yn:

 moneyadvice.service.org.uk/cynllunydd-cyllideb

Teclyn Rheoli Arian

Gwnewch y gorau o'ch taliad Credyd Cynhwysol gyda chymorth personol gan ein teclyn Rheoli Arian yn:

 moneyadvice.service.org.uk/rheolwr-arian

Cynllunydd Cyllideb

Incwm misol

Credyd Cynhwysol

Enillion o'r gwaith

Budd-daliadau eraill

Pensiynau

Incwm arall

Cyfanswm incwm:

Costau hanfodol

Rent neu forgais

Y Dreth Gyngor

Nwy a thrydan

Dŵr

Ffôn a band eang

Cludiant a theithio

Costau gofal ac iechyd

Costau ysgol a gofal plant

Cynhaliaeth Plant

Yswiriant

Costau proffesiynol

Costau hanfodol eraill

Cyfanswm costau hanfodol:

Costau hyblyg

Cyfathrebu a hamdden

Bwyd a chadw tŷ

Costau personol

Cyfanswm costau hyblyg:

Cyfanswm y costau misol (hanfodol a hyblyg):

Os ydych chi'n cael trafferth â dyled, gallwch gael cyngor cyfrinachol am ddim ar ddyledion heddiw yn:

 moneyadvice.service.org.uk/cy/tools/canfyddwr-cyngor-ar-ddyledion

Dyledion â blaenoriaeth

Ôl-ddyledion rhent neu forgais

Y Dreth Gyngor

Nwy a thrydan

Cynhaliaeth Plant

Dirwyon llys

Cyfanswm dyledion â blaenoriaeth:

Dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth

Gorddrafth

Cardiau credyd

Benthyciad personol

Benthyciad cyllid ceir

Benthyciadau eraill

Taliadau siop neu gatalog

Benthyciadau gan ffrindiau neu deulu

Cyfanswm dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth:

Cyfanswm incwm yn dilyn tynnu costau a chyfanswm dyledion:

£

3 Ystyriwch sut y byddwch yn talu'ch rhent

Dyma rai ffyrdd o sicrhau eich bod chi'n talu'ch rhent mewn pryd

Sicrhewch fod eich dyddiad talu rhent yn fuan ar ôl i chi gael eich talu

Pan fyddwch yn gwybod y dyddiad y telir eich taliad Credyd Cynhwysol bob mis, gofynnwch i'ch landlord os gallwch symud y dyddiad y byddwch yn talu'ch rhent yn fuan ar ôl i chi gael eich taliad Credyd Cynhwysol - neu gyflog os ydych chi'n gweithio.

Sefydlu Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog

Gallwch ofyn i'ch banc wneud hyn ond arhoswch nes i chi gael eich taliad cyntaf. Bydd eich arian rhent yn mynd i'ch landlord yn awtomatig ar yr un diwrnod bob mis ac ni fydd angen i chi gofio gwneud.

Rhowch eich rhent mewn cyfrif ar wahân

Yna, sefydlwch archeb sefydlog fel bod eich rhent yn mynd yn syth i'r cyfrif hwnnw ac yn aros yno tan ddiwrnod rhent.

Agorwch gyfrif pot jam neu gyfrif rhent

Mae cyfrifon pot jam yn eich galluogi i roi eich arian mewn gwahanol botiau er mwyn ei gadw ar wahân. Gallwch gael potiau ar gyfer rhent, bwyd a biliau, gan hwyluso'r broses o reoli'ch taliadau. Mae rhai undebau credyd a chymdeithasau tai yn cynnig cyfrifon pot jam. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi bob mis.

Cael cerdyn rhagdaledig

Rhowch eich arian gwario ar eich cerdyn a gadewch arian ar gyfer eich rhent a'ch biliau eraill yn eich cyfrif banc.

4 Os byddwch chi'n mynd i ôl-ddyledion rhent

Os gredwch chi y byddwch chi'n hwyr gyda'ch rhent:

- siaradwch â'ch landlord, cymdeithas dai neu gyngor bob amser cyn y bydd problem
- agorwch eu llythyron a dychwelwch eu galwadau
- ceisiwch weithio gyda hwy i ddod o hyd i ddatrysiaid ymarferol.

Bydd yr holl bethau hyn yn dangos eich bod chi'n gwneud ymdrech i gadw ar ben pethau.

Os ydych chi eisoes mewn ôl-ddyledion rhent:

- gofynnwch i'ch landlord neu'ch hyfforddwr gwaith am sefydlu taliadau uniongyrchol.

Bydd eich rhent yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch landlord hyd nes y byddwch chi'n ôl ar y trywydd cywir.

Os ydych chi'n dymuno parhau i dalu rhent eich hun gofynnwch i'ch hyfforddwr gwaith am Daliad Amlach – byddwch chi'n derbyn eich taliad Credyd Cynhwysol wedi'i dalu bob pythefnos neu bob wythnos. Fe allai hyn eich helpu chi i dalu'ch rhent ar amser.

Mae ein hofferyn Lleolydd Cyngor ar Ddyledion ar gael yn

 moneyadvice.service.org.uk/dyledion

Os ydych chi'n ad-dalu ôl-ddyledion rhent:

- dywedwch wrth eich hyfforddwr gwaith os yw'r ad-daliadau yn rhy uchel a'ch bod chi dan risg o fynd i fwy o ddyled. Gall helpu i'w gosod ar gyfradd y gallwch chi ei fforddio.

Cyngor am ôl-ddyledion rhent neu droi allan:

Shelter 0808 800 4444 Shelter.org.uk
Cyngor ar Bopeth citizensadvice.org.uk

Os ydych chi angen help gyda'ch hawliad

Ffoniwch y **llinell gymorth Credyd Cynhwysol** am ddim ar:
Ffôn: 0800 328 9344
Ffôn destun: 0800 328 1344

Os oes gennych chi gyfrif a siwral ar-lein yn barod dylech ffonio'r llinell gymorth gwasanaeth llawn **Credyd Cynhwysol** ar:
Ffôn: 0800 328 5644
Llinell destun: 0800 328 1344
8am - 6pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener (ar gau ar ymlau banc a chyhoeddus). Mae galwadau am ddim.



5 Mynd ar-lein

Buddion mynd ar-lein

Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl wneud a rheoli eu hawliad Credyd Cynhwysol ar-lein.

Os nad ydych yn gyfarwydd â chyfrifiaduron neu heb fod yn hyderus i'w defnyddio yn y gorffennol, dyma amser delfrydol i chi ddysgu neu wella'r sgiliau hynny.

Ar y rhyngwrdd gallwch chi hefyd ganfod llawer o ffyrdd o arbed arian ar filiau a qwariant.

Defnyddiwch y rhynggrwyd i gael bargeinion gwell

Gallwch arbed arian trwy fod ar-lein.
Mae'n hawdd cymharu'r bargeinion
gorau am nwy a thrydan, ffonau
symudol a band-eang, yswiriant, siopa
yn yr archfarchnad a phetrol.

Gallwch chi hefyd ddod o hyd i wefannau gyda thalebau gyda gostyngiadau i'w defnyddio mewn siopau stryd fawr neu ar-lein.

Dysgwch fwy am ddefnyddio gwefannau cymharu ar-lein i arbed arian yn:

 [moneyadvice.service.org.uk/
cymharu-prisiau](https://moneyadvice.service.org.uk/cymharu-prisiau)

Dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur

Ewch i'r manau hyn i glywed mwy am hyfforddiant am ddim.

- Ffoniwch neu ymwelwch â'ch **llyfrgell leol** am gymorth ar sut i fynd ar-lein.
- Gofynnwch i'ch **cynghorydd Canolfan Byd Gwaith** neu **hyfforddwr gwaith**.
- I ddod o hyd i gefnogaeth sgiliau digidol am ddim yn eich ardal, fffoniwch y **Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol** ar 0800 100 900. Gallant hefyd roi cyngor am sgiliau, hyfforddiant ac ymgeisio am swyddi.
- Ewch i wefan Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein: **ukonlinecentres.com** i ddod o hyd i'ch canolfan hyfforddi agosaf.
- Mae Learn My Way yn cynnig cyrsiau am ddim ar ddefnyddio cyfrifiadur, porïr we a chanfod gwaith ar-lein: yn **learnmyway.com**

Os ydych chi'n derbyn Credyd
Cynhwysol ac nad ydych chi'n ennill
unrhyw incwm o waith, gofynnwch am
becyn Sylfaenol BT sy'n cynnig rhent
lllinell misol isel a lwfans galwadau.
Mae'n cynnwys terfyn prisiau i'ch helpu
i gyllidebu a swm o gyswllt rhyngwrwyd
ar gyfer pori'r we a lawrlwytho.

Rhaid i chi fod yn gwsmer i BT. Os nad ydych, gallwch gael eich cysylltu am ddim. Mae pecyn ffôn a band eang yn costio tua £9.95 y mis.

Dysgwch fwy yn: **bt.com/btbasic** neu
ffoniwch 0800 800 864 (8am i 6pm
Dydd Llun i Ddydd Gwener).

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi eich nodiadau

This image shows a single page of white paper with horizontal green lines, resembling notebook paper. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.



**Gwasanaeth
Cynggori Ariannol**

Rheoli'ch arian a thalu'ch rhent
yw un o'r canllawiau sydd ar gael
o'r Gwasanaeth Cynggori Ariannol.
I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau
ac i ofyn am gopi, ewch i

 **moneyadviceservice.org.uk/
canllawiau-printiedig-am-ddim**

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat
Braille, print bras neu ar ffurf sain
cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio
neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu i gynnal a
gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2018).
Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Gwasanaeth Cynggori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: MYMPYRE6W_Apr18_Edition1_Welsh